Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Cam 2, Mehefin 2019

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
26/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
MEHEFIN 25, 2019





Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-83876-511-8

© Hawlfraint y Goron 2019

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 2, Mehefin 2019

Anthony Lydall ac Amy Childs, Strategic Research and Insight

Mae’r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i’r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediad
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Canolfan QED, Ystad Trefforest
Pontypridd, Rhondda Cynon Taf
CF37 5YR

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

ISBN: 978-1-83876-511-8
Mehefin 25, 2019
© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

Cynnwys

1. Prif Ganfyddiadau 2
2. Cefndir a Methodoleg 3
3. Perfformiad dros mis Mai/Mehefin 4
4. Rhesymau dros Gynnydd mewn Ymwelwyr 7
5. Rhesymau dros Lai o Ymwelwyr 8
6. Proffidioldeb 9
7. Effaith Brexit 11
8. Hyder ar gyfer yr Haf 16
9. Canfyddiadau Ansoddol 18

1. Prif Ganfyddiadau

Cyfnod cyson ar gyfer y diwydiant

1.1 Mae'r rhan fwyaf (83%) o fusnesau wedi cynyddu neu gynnal eu lefelau ymwelwyr yn ystod hanner tymor Mai/Mehefin. Ymysg y rheiny a nododd gynnydd mewn ymwelwyr, roedd traean (32%) yn nodi'r tywydd fel rheswm. Fodd bynnag, mae'r tywydd hefyd yn cael ei nodi fel ffactor allweddol o ran perfformiad ymysg y traean a nododd lai o ymwelwyr.

1.2 Mae busnes dychwel wedi dod â sefydlogrwydd i'r diwydiant yn ystod y cyfnod hwn. Mae tri o bob deg (30%) o'r rheiny sydd wedi gweld cynnydd mewn ymwelwyr yn nodi hyn fel ffactor allweddol.

Bwytai / tafarndai / caffis yn elwa ar eu marchnata eu hunain

1.3 Bwytai, tafarndai a chaffis mewn ardaloedd sydd â nifer fawr o dwristiaid yw'r sector sy'n perfformio orau, gyda thua dau allan o bump (39%) yn gwasanaethu mwy o gwsmeriaid sy'n dwristiaid na'r un cyfnod y llynedd. Mae tua thraean (31%) o'r rhain yn priodoli'r cynnydd mewn cwsmeriaid i'w marchnata eu hunain.

1.4 Y sector hunanarlwyo sydd wedi cael yr her fwyaf o ran cynyddu lefelau ymwelwyr. Y rheswm mwyaf cyffredin am weld nifer yr ymwelwyr yn gostwng yn y sector hwn yw ‘ansicrwydd ynglŷn â Brexit’, gan fod hyn wedi effeithio ar archebion ymlaen llaw.

Mae Brexit yn effeithio ar fwy na marchnadoedd Ewrop yn unig

1.5 Ar y cam hwn, rydym wedi holi cwestiynau yn benodol ar effaith Brexit.

1.6 Mae dros hanner (56%) o fusnesau yn disgwyl na fydd Brexit yn cael unrhyw effaith ar ymwelwyr o Ewrop yn 2019, ond mae'r rhan fwyaf o'r gweddill (37%) yn disgwyl effaith negyddol. Mae rhai busnesau eisoes yn gweld cwymp sylweddol mewn ymwelwyr o Ewrop yn sgil yr ansicrwydd.

1.7 Ond nid yw'r effaith o dramor yn gyfyngedig i ymwelwyr o Ewrop. Mae rhai busnesau (28%) hefyd yn disgwyl effaith negyddol ar ymwelwyr o'r tu hwnt i Ewrop.

1.8 Mae'r farn ar farchnad y DU yn gymysg. Mae rhai busnesau (13%) yn disgwyl effaith negyddol eleni yn sgil Brexit yn achosi diffyg hyder cyffredinol i wario. Fodd bynnag, mae cyfran y busnesau (23%) sy'n disgwyl effaith gadarnhaol yn gwneud mwy na gwrthbwyso hyn. Y prif resymau (sy'n ymwneud â Brexit) yw'r drafferth/ansicrwydd posibl wrth deithio dramor a gwerth gwan y bunt.

1.9 Ymysg y busnesau sydd yn disgwyl effaith ar unrhyw un o'r marchnadoedd (y DU / Ewrop / y tu hwnt i Ewrop), mae'r mwyafrif helaeth (88%) yn gwneud dim i baratoi.

Disgwyliadau am amseroedd gwell i ddod

1.10 Yn dilyn cyfnod cyson, mae busnesau ym mhob sector yn hyderus am dymor yr haf sydd ar ddod. Mae 29% yn ‘hyderus iawn’ a 56% yn ‘weddol hyderus’.

2. Cefndir a Methodoleg

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Arolwg wedi'i gynnal ar ffurfiau amrywiol ers 2005, ac fel arfer cynhelir rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.

2.2 Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â gyfnod gwyliau hanner tymor mis Mai/Mehefin yn 2019, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer yr haf. Rydym hefyd wedi gofyn cwestiynau yn benodol ar effaith Brexit.

Sut y cynhelir yr Arolwg?

2.3 Rydym wedi cynnal 827 o gyfweliadau dros y ffôn. Mae hwn yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.4%. Mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	106	39	76	58	**279**
Llety hunanarlwyo	100	48	93	36	**277**
Meysydd carafanau/pebyll	38	14	22	5	**79**
Hostelau	7	14	8	5	**34**
Atyniadau	25	13	20	29	**87**
Gweithredwyr gweithgareddau	14	5	11	3	**33**
Bwytai / tafarndai / caffis	8	12	9	9	**38**
Cyfanswm	**298**	**145**	**239**	**145**	**827**

2.4 Mae tua tri chwarter (74%) o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd, ac mae 26% heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Mae gweithredwyr bwytai, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).

2.5 Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes ym mis Mehefin. Ceir copi o'r holiadur fel atodiad.

3. Perfformiad dros mis Mai/Mehefin

Perfformiad fesul Sector



Cyfnod cyson ar gyfer y diwydiant

3.1 Mae'r rhan fwyaf (83%) o fusnesau wedi cynyddu neu gynnal eu lefelau ymwelwyr yn ystod hanner tymor Mai/Mehefin. Bwytai, tafarndai a chaffis mewn ardaloedd sydd â nifer fawr o dwristiaid yw'r sector sy'n perfformio orau, gyda thua dau allan o bump (39%) yn gwasanaethu mwy o gwsmeriaid sy'n dwristiaid na'r un cyfnod y llynedd. Mae tua thraean (31%) o'r rhain yn priodoli'r cynnydd mewn cwsmeriaid i'w marchnata eu hunain.

3.2 Mae'r sector llety â gwasanaeth a darparwyr atyniadau/gweithgareddau hefyd wedi gweld cynnydd. Mae busnes dychwel yn ffactor allweddol mewn llety â gwasanaeth, a nodir gan ddau allan o bump o'r rheiny sydd wedi gweld cynnydd. Mae darparwyr atyniadau a gweithgareddau'n dibynnu'n fwy ar y tywydd, a dywedodd dau draean o'r rheiny sydd wedi gweld cynnydd fod y tywydd yn ffactor.

"Y tywydd yw'r brif ffactor ar gyfer ein busnes"
Atyniad, y Gogledd

3.3 Y sector hunanarlwyo sydd wedi cael yr her fwyaf o ran cynyddu lefelau ymwelwyr. Y rheswm mwyaf cyffredin am weld nifer yr ymwelwyr yn gostwng yn y sector hwn yw 'ansicrwydd ynglŷn â Brexit', gan fod hyn wedi effeithio ar archebion ymlaen llaw.

"Llai o ymwelwyr o Ewrop. Mae Brexit eisoes wedi cael effaith."
Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

Tuedd o ran Perfformiad



Perfformiad sefydlog yn dilyn cyfnod da y llynedd

3.4 Er bod perfformiad hanner tymor Mai a Mehefin eleni yn sefydlog, gyda lleiafrif o fusnesau'n gweld cynnydd yn lefelau eu hymwelwyr, cymharir â chyfnod cywerth da iawn yn 2018.

"Roedd y llynedd yn anhygoel"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

Perfformiad fesul Rhanbarth



Delwedd gyson ar draws pedwar rhanbarth Cymru

3.5 Yn gyffredinol, mae perfformiad y diwydiant yn cael ei adlewyrchu ar draws pedwar rhanbarth Cymru (Gogledd, Canolbarth, De-orllewin, De-ddwyrain). Ym mhob rhanbarth, mae mwyafrif y busnesau'n adrodd yr un lefel o ymwelwyr â'r un cyfnod y llynedd.

3.6 Y rhanbarth sydd â'r gyfran uchaf (28%) o fusnesau sydd wedi gweld cynnydd yw'r De-orllewin. Rhoddir nifer o resymau am hyn, gan gynnwys tywydd gwell (yn ôl 35% o'r busnesau a welodd gynnydd), busnes dychwel (29%), marchnata eu hunain (27%) ac argymhellion (27%).

"Mae pobl yn dod o ledled y byd"
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

"Mae pobl yn newid eu ffordd o fynd ar wyliau felly rydyn ni'n newid ein ffordd o farchnata ein busnes i ddenu mwy o gwsmeriaid"
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

4. Rhesymau dros Gynnydd mewn Ymwelwyr



Tywydd cymysg, ond da i rai busnesau ar y cyfan

4.1 Ymysg y rheiny a nododd gynnydd mewn ymwelwyr, roedd traean (32%) yn nodi'r tywydd fel rheswm. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod y tywydd yn ffactor allweddol ar berfformiad ymysg y rheiny a nododd eu bod wedi cael llai o ymwelwyr (trafodir hyn yn ddiweddarach yn Adran 5). Cafwyd cymysgedd o heulwen a glaw yn ystod yr wythnos mewn llawer o rannau o Gymru, ac felly mae effaith y tywydd wedi bod yn eithaf penodol o ran y math o fusnes, ei gyfnod a'i leoliad.

"Rydyn ni wedi cael mwy o ymwelwyr – rydyn ni'n dibynnu'n fawr ar y tywydd"
Atyniad, y De-orllewin

Pwysigrwydd ymwelwyr dychwel

4.2 Dywedodd tri o bob deg (30%) o weithredwyr a gafodd mwy o fusnes fod ymwelwyr dychwel yn ffactor. Mae gweithredwyr yn siarad yn aml am bwysigrwydd denu ymwelwyr yn ôl.

"Mae llawer o bobl wedi archebu ymlaen llaw eleni – mae ymwelwyr dychwel yn ffactor allweddol"
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

5. Rhesymau dros Lai o Ymwelwyr



Nid yw'r tywydd cymysg wedi helpu rhai

5.1 Fel y crybwyllwyd o dan resymau dros gynnydd mewn ymwelwyr, mae'r tywydd wedi bod yn eithaf penodol o ran amseriad, lleoliad a math o fusnes.

"Y tywydd yw'r ffactor pwysicaf ar gyfer y busnes. Mae tywydd da yn denu mwy o ymwelwyr, ond doedd hi ddim mor dda yma."
Atyniad, y Gogledd

Brexit yn parhau

5.2 Roedd mis Mawrth a mis Ebrill yn fisoedd gwleidyddol anodd iawn, gyda dyddiad y DU ar gyfer ymadael â'r UE yn cael ei ymestyn ar y funud olaf i fis Ebrill, ac eto am yr ail dro tan yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

5.3 Er bod yr anrhefn wedi tawelu am y tro, mae rhai busnesau'n teimlo sgil-effeithiau nifer llai o bobl yn archebu ymlaen llaw yn y gwanwyn.

"Does dim cymaint o bobl yn archebu ymlaen llaw ag y llynedd oherwydd ansicrwydd Brexit"
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

"Dydy pobl ddim yn mynd ar wyliau gymaint yn sgil ansicrwydd Brexit"
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

6. Proffidioldeb



Mae proffidioldeb yn cael ei gywasgu mewn rhai sectorau

6.1 Mae cadw proffidioldeb yn her yn y sector llety ar hyn o bryd. Mae rhai'n nodi costau cynyddol, tra bo eraill yn dweud nad yw amodau'r farchnad yn eu caniatáu i godi eu prisiau. Mae twf Airbnb wedi cael effaith sylweddol ar nifer o weithredwyr, yn enwedig yn y sector hunanarlwyo.

"Mae pobl yn anelu at waelod y farchnad. Mae Airbnb wedi cael effaith wael ar bethau hefyd."
Llety hunanddarpar, y Gogledd

"Roedd rhaid i ni ostwng ein prisiau ar gyfer hanner tymor, felly llai o elw, ac rydyn ni ond wedi cadw ystafell ar gyfer pythefnos yr haf hwn, felly dwi'n ofni y bydd rhaid i ni ostwng ein prisiau eto"
Llety hunanddarpar, y Gogledd

Tueddiadau o ran Proffidioldeb



Proffidioldeb o dan bwysau am y tro cyntaf ers blwyddyn a mwy

6.2 Roedd gweithredwyr wedi nodi proffidioldeb iach mewn sawl cyfnod yn y diwydiant. Ar hyn o bryd, mae'n debyg fod gweithredwyr dan ychydig mwy o bwysau eto am y tro cyntaf ers dechrau gwael yn 2018.

"Rydyn ni wedi bod yr un mor brysur ond mae ein helw yn llai am fod y trethi wedi saethu i fyny"
Hostel, y Canolbarth

7. Effaith Brexit

7.1 Ar y cam hwn, rydym wedi holi cwestiynau yn benodol ar effaith Brexit.

Effaith ar Ymwelwyr yn ôl Marchnad



Mae Brexit yn effeithio ar fwy na marchnadoedd Ewrop yn unig

7.2 Fel y'i nodir yng ngham blaenorol y baromedr ar ôl y Pasg, mae rhai gweithredwyr yn gweld lleihad neu'n disgwyl gweld lleihad yn nifer yr ymwelwyr o Ewrop (y tu hwnt i'r DU). Mae'n debygol y bydd yr effaith hon ar ei chryfaf yn ne-ddwyrain Cymru, lle mae oddeutu dau draean (65%) o fusnesau yn disgwyl effaith negyddol ar ymwelwyr Ewropeaidd.

"Mae dau grŵp o Almaenwyr a oedd wedi cadw llety am o leiaf wythnos wedi canslo. Eu rheswm oedd Brexit."
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

"Roedd cwmnïau o'r Eidal a'r Almaen yn arfer dod draw a rhentu'r sgubor, ond ers Brexit mae pethau wedi dirywio.Dydyn ni ddim yn gweld ymwelwyr o Ewrop mwyach."
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

"Cwymp anferthol rhwng traean a hanner mewn ymwelwyr o Ewrop, a'r cyfan oherwydd ansicrwydd Brexit.Rydyn ni'n cael ymwelwyr dychwel o Fafaria sydd wedi dweud wrthym fod pobl yn ofni ymweld â Phrydain oherwydd ansicrwydd pa fath o groeso gân nhw."
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

"Llai o ymwelwyr o Ewrop, heb os"
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

7.3 Fodd bynnag, nid yw'r effaith o dramor yn gyfyngedig i ymwelwyr o Ewrop. Mae rhai busnesau (28%) hefyd yn disgwyl effaith negyddol ar ymwelwyr o'r tu hwnt i Ewrop. Mae'n debygol y bydd yr effaith hon ar ei chryfaf yn ne-ddwyrain Cymru, lle mae bron hanner (46%) o fusnesau yn disgwyl effaith negyddol ar ymwelwyr o'r tu hwnt i Ewrop.

"Llawer llai o Americanwyr a Tsieineaid nag rydyn ni wedi'u gweld"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Mae llawer o ymwelwyr o Ewrop a'r tu hwnt wedi canslo eisoes eleni"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

7.4 Nododd ymchwil a wnaed ar gyfer Croeso Cymru gyda'r fasnach deithio dramor yn gynharach eleni fod rhai cwsmeriaid yn ansicr ynglŷn â sut y gallai Brexit newid perthynas eu gwlad eu hunain â'r DU. Hefyd, mae gwledydd eraill wedi gweld delweddau o brotestiadau Brexit. Gall hyn achosi gwledydd sy'n llai cyfarwydd â'r DU, megis Tsieina, i amau eu diogelwch.

"Mae'n ymddangos fel bod mwy o rwystrau rhag teithio i'r DU"
Gweithredwr teithiau o UDA *(o ymchwil y fasnach deithio Croeso Cymru, 2019)*

"Problem diogelwch – mae protestiadau yn erbyn Brexit i'w gweld ar y cyfryngau cymdeithasol. Dydy'r Tsieineaid ddim yn gwybod a yw'n dal i fod yn ddiogel i ymweld â'r DU."
Gweithredwr teithiau o Tsieina *(o ymchwil y fasnach deithio Croeso Cymru, 2019)*

Marchnad y DU: trafferth a chost mynd dramor o'u cymharu ag ansicrwydd gwario cyffredinol

7.5 Mae'r farn ar farchnad y DU yn gymysg. Mae rhai busnesau (13%) yn disgwyl effaith negyddol eleni yn sgil Brexit yn achosi diffyg hyder cyffredinol i wario.

"Mae popeth yn amhendant. Mae pobl yn ofalus ynglŷn â'r hyn maen nhw'n ei wario. Mae mwy o bobl yn trefnu gwyliau byrrach."
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

"Mae pobl yn dal gafael yn eu harian i weld beth fydd yn digwydd"
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

7.6 Fodd bynnag, mae cyfran y busnesau (23%) sy'n disgwyl effaith gadarnhaol yn gwneud mwy na gwrthbwyso hyn. Y prif resymau (sy'n ymwneud â Brexit) yw'r drafferth/ansicrwydd posibl wrth deithio dramor a gwerth gwan y bunt.

"Dwi'n meddwl bod pobl yn aros yn y DU gan fod y gyfradd gyfnewid mor wael"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Mae disgwyl mwy o ymwelwyr o bob rhan o'r DU yr haf hwn"
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

Ar gyfer pob marchnad, mae mwyafrif y busnesau'n disgwyl dim effaith

7.7 Er gwaethaf llawer o sylwadau cryf am farchnadoedd tramor yn dirywio yn sgil Brexit, mae'n werth nodi bod mwyafrif y busnesau ym mhob marchnad (y DU / Ewrop / y tu hwnt i Ewrop) yn disgwyl dim effaith.

"Dwi'n meddwl ei fod e'n sbwriel llwyr a fydd e ddim yn effeithio arnom ni o gwbl"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Mae llawer o ymwelwyr o Ewrop yn dal i ddod. Dydy Brexit ddim wedi cael effaith ar ein hymwelwyr hyd yma."
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

Paratoi ar gyfer yr Effaith



Mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n gwneud dim i baratoi ar gyfer yr effaith

7.8 Ymysg y busnesau sydd yn disgwyl effaith ar unrhyw un o'r marchnadoedd (y DU / Ewrop / y tu hwnt i Ewrop), mae'r mwyafrif helaeth (88%) yn gwneud dim i baratoi. Mae hyn yn fwy perthnasol ymysg microfusnesau.

"Sdim syniad beth i'w wneud i baratoi ar gyfer Brexit"
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain



Hyrwyddo i farchnad y DU yn fwy

7.9 Yn ôl canlyniadau C8 a drafodwyd yn flaenorol, mae disgwyl i Brexit gael effaith net gadarnhaol dim ond ar farchnad y DU. Mae rhai gweithredwyr yn cydnabod hyn ac felly maent yn mynd ati i hyrwyddo eu hunain yn fwy yn y DU, yn enwedig gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

"Trefnu mwy o hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefannau archebu"
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

Hyrwyddo i farchnadoedd eraill

7.10 Mae busnesau eraill yn targedu marchnadoedd y tu hwnt i Ewrop, neu mae rhai'n dweud eu bod yn marchnata'n fwy yn gyffredinol ar draws pob marchnad, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

"Rydyn ni'n ceisio defnyddio mwy o hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol i ddenu mwy o ymwelwyr, yn enwedig o UDA a Chanada"
Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

"Ymgyrchoedd marchnata gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn enwedig"
Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

Lleihau prisiau

7.11 Mae tua chwarter (24%) o'r busnesau sy'n disgwyl effaith yn dweud eu bod yn adolygu eu prisiau i barhau'n gystadleuol. Er y byddant yn elwa yn y tymor byr, mae'r cyfnod y gallant gynnal hyn yn bryder, o ystyried y pwysau proffidioldeb sydd eisoes ar y sector llety.

"Rydyn ni wedi gweld cwymp mawr mewn ymwelwyr o Ewrop a'r tu hwnt. Rydyn ni'n lleihau ein prisiau ac yn edrych ar wefannau eraill i geisio denu ymwelwyr."
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

Effaith ar Staffio

C14 (OS CYFLOGIR UNRHYW UN) "Sut, os o gwbl, ydy Brexit wedi effeithio ar staff eich busnes" *(Digymell)*	
Effaith gadarnhaol	0%
Dim effaith	77%
Effaith negyddol – trafferthion recriwtio cyflogeion newydd	6%
Effaith negyddol – trafferthion cadw cyflogeion presennol	2%
Effaith negyddol – rheswm arall	2%
Ddim yn gwybod	13%

Sampl: 557

Prin effaith Brexit ar staff

7.12 Mae dau draean o fusnesau'n cyflogi staff ac eithrio'r perchnogion. O blith y rheiny, dim ond un allan o ddeg (10%) sy'n dweud bod Brexit wedi cael effaith ar staff. Y rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd am beidio â chael effaith oedd bod yr holl staff wedi'u recriwtio'n lleol.

"Dim ond pobl leol rydyn ni'n eu cyflogi felly dydy Brexit ddim yn cael effaith"
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

"Mae'r staff i gyd yn dod o Brydain"
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

Mae Brexit yn gwneud recriwtio'n dasg anoddach fyth i rai

7.13 Mae rhai busnesau'n dweud bod recriwtio yn y diwydiant lletygarwch eisoes yn anodd. Gallai Brexit ei gwneud yn anoddach fyth. Mae'n debyg bod hyn yn effeithio fwyaf ar dde-ddwyrain Cymru – mae 14% o'r busnesau sy'n cyflogi pobl yn dweud bod Brexit wedi effeithio ar recriwtio cyflogeion newydd.

"Mae recriwtio staff yn anodd eisoes. Ar ôl Brexit, bydd hi'n waeth fyth."
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

"Mae eisoes yn anoddach dod o hyd i staff o Ewrop yn yr ardal hon"
Atyniad, y De-orllewin

"Mae hyn wedi effeithio ar recriwtio gwirfoddolwyr, yn enwedig myfyrwyr ar leoliadau'r UE"
Atyniad, y De-orllewin

8. Hyder ar gyfer yr Haf

Hyder fesul Sector



Tymor prysuraf ar y gorwel

8.1 Yn dilyn cyfnod cyson, mae busnesau ym mhob sector yn hyderus am dymor yr haf sydd ar ddod.

8.2 Tôn rhai gweithredwyr yw bod rhaid iddynt fod yn hyderus ynglŷn â'u tymor pwysicaf oll.

"Yr haf yw'r tymor pwysicaf ar gyfer y busnes"
Bwyty, y De-ddwyrain

"Tymor yr haf yw'r pwysicaf – disgwyliadau mawr"
Atyniad, y De-orllewin

"Mae mis Mehefin yn ofnadwy, ond mae llawer o ymwelwyr wedi cadw lle ar gyfer mis Gorffennaf ac Awst"
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

Tuedd mewn Hyder



Hyder yn isel o ystyried adeg y flwyddyn

8.3 O'i chymharu â'r adeg hon y llynedd, nid oes llawer o hyder wrth nesáu at yr haf. Fodd bynnag, roedd mis Mai/Mehefin y llynedd yn gyfnod da iawn gyda digon o dywydd heulog, ac effeithiodd hyn yn fawr ar yr hyder ar y pryd.

"Mae llawer o goetsis yn dod ac os bydd y tywydd yn dda, byddwn ni'n mwynhau"
Atyniad, y Gogledd

9. Canfyddiadau Ansoddol

9.1 Rydym wedi cynnal pum cyfweliad manwl dros y ffôn â ffigurau twristiaeth allweddol o sefydliadau a chyrff amrywiol ledled Cymru. Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

Perfformiad dros Hanner Tymor Mai

Hanner tymor da i rai …

9.2 Dywed rhanddeiliaid yn y sector gweithgareddau ac atyniadau eu bod wedi cael hanner tymor Mai da.

"Roedd ffigurau'r ymwelwyr yn eithaf da. Yn 2018, cawson ni ychydig yn llai na 73,000 yn ystod hanner tymor, ac eleni cawson ni ychydig dros 74,000."

"Mae hi wedi bod yn dda. Mae'r aelodau i gyd yn dweud bod busnes yn dda a'i fod mor dda â'r blynyddoedd blaenorol."

9.3 Creda un rhanddeiliad yn y sector gweithgareddau fod perfformiad yn parhau i fod yn dda oherwydd y cynnyrch a'r hyn sydd ganddo i'w gynnig i ymwelwyr.

"Mae'r cynnyrch yno; mae'n gynnyrch hysbys o ran ei gynnig yn yr awyr agored a'r gweithgareddau a ddaw gyda fe … doedd dim cyfnod tawelach, sydd wastad yn beth da."

9.4 Mae rhanddeiliad arall sydd wedi cael cyfnod da yn awgrymu mai gwaith gosodiadau newydd ar rai o'r safleoedd sydd wedi arwain at gynnydd mewn ymwelwyr.

"Mae un o'r safleoedd newydd wedi cael gosodiad newydd sydd wedi gweld cynnydd mawr mewn ymwelwyr. Mae safleoedd eraill wedi cael gosodiadau newydd hefyd. Gallai hyn fod wedi dod â phobl yn ôl sydd heb fod i'r safleoedd ers blwyddyn neu ddwy."

… ond cyfnod tawelach i eraill

9.5 Nid yw pawb wedi cael hanner tymor cadarnhaol. Dywed rhai fod mis Mai a'r hanner tymor wedi bod yn dawelach na'r disgwyl.

"Ar y cyfan, dwi'n gweld bod llawer o fusnesau wedi bod yn dawelach na'r disgwyl … mae nifer yr ymwelwyr wedi gostwng, yn eithaf sylweddol mewn rhai achosion."

"Mae mis Mai wedi bod ychydig yn dawel. Dyma'r mis Mai tawelaf ers i mi fod yma dros y pum mlynedd ddiwethaf."

9.6 Dywed un y gallai adeg hwyr y Pasg a'i fod mor agos at y gwyliau banc ym mis Mai fod wedi achosi cwymp mewn perfformiad.

"Dwi'n meddwl gallai dyddiad y Pasg fod wedi effeithio ar hynny, gan ei fod mor agos at ŵyl y banc gyntaf mis Mai."

Effaith a Mesurau Brexit

Diffyg gobaith i'r farchnad ddomestig

9.7 Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd rhai rhanddeiliaid yn obeithiol y byddai Brexit a'i ansicrwydd yn cael effaith gadarnhaol ar y farchnad ddomestig. Fodd bynnag, ar sail eu perfformiadau hyd yn hyn eleni, mae eu teimlad wedi newid.

> *"Roedden ni'n gobeithio eleni, gyda holl ansicrwydd Brexit, y byddwn ni wedi gweld effaith gadarnhaol ar y farchnad ddomestig … roeddwn i'n meddwl byddai mwy o bobl yn mynd ar wyliau byr yn y DU … ond dwi ddim yn meddwl fy mod i'n gweld y duedd honno.Roeddwn i'n disgwyl blwyddyn dda eleni."*

> *"Roeddwn i'n meddwl byddai'n cael effaith gadarnhaol ar wyliau yn y DU, ond dyw hi ddim. Ar y diwrnod cyntaf ym mis Mawrth, doedd neb wedi cadw lle oherwydd doedd neb yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd … dwi'n meddwl bod hi'n cael effaith niweidiol. Dwi'n meddwl dyna pam dwi ddim yn gweld unrhyw un o Ewrop, ond hefyd, dwi'n meddwl bod pobl ddim yn gwario unrhyw arian gan nad ydyn nhw'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd."*

Mae rhai yn pryderu, mae rhai'n ansicr

9.8 Mae un o'r rhanddeiliaid yn honni nad yw'n gorbryderu am Brexit ac yn credu na ddylai wneud gwahaniaeth i'w berfformiad ef neu berfformiad ei aelodau, gan fod y sector yn 'gynnyrch hysbys'. Hefyd, dywed y gallai Brexit gael effaith gadarnhaol ar farchnadoedd Ewrop, yn dibynnu ar gryfder y bunt o'i chymharu â'r ewro.

> *"Dwi wir yn credu nad yw'n mynd i wneud gwahaniaeth … dydy'r aelodau ddim yn meddwl bydd unrhyw newid sylweddol yn y ffordd maen nhw'n gweithredu fel busnes, neu unrhyw newid yn arferion yr ymwelwyr sy'n dod i ymweld â nhw. Mae modd dadlau gallai fod yn rhatach i'r ymwelwyr o Ewrop ar sail y bunt yn erbyn yr ewro, felly gallai fod yn fanteisiol."*

9.9 Fodd bynnag, mae un arall yn ansicr ynglŷn â sut bydd Brexit yn effeithio ar ffigurau ymwelwyr ei aelodau, yn enwedig gan fod mwyafrif ei ymwelwyr yn dod o'r DU. Mae'n damcaniaethu y gallai effeithio ar safleoedd atyniadau awyr agored y mae ymwelwyr o Ewrop yn dod atynt ar deithiau ar goets.

> *"Mae'n anodd gwybod ar yr adeg hon … mae rhai safleoedd yn cael llawer o ymwelwyr o dramor ar goetsis – gallai effeithio arnyn nhw – ond mae mwyafrif ein hymwelwyr yn dod o'r DU … felly ddylai lleihad mewn ymwelwyr o Ewrop ddim cael effaith fawr arnyn nhw."*

Dim llawer o fesurau ar waith ar gyfer effaith Brexit

9.10 Mae llawer o randdeiliaid yn datgelu nad ydynt wedi rhoi unrhyw fesurau ar waith i baratoi at effaith yn sgil Brexit. Mae hyn yn gyson â'r canfyddiadau meintiol.

9.11 Nid yw un yn gwybod beth y gellid ei wneud i atal effaith. Mae’n cydnabod y gallai geisio marchnata'n fwy yn y DU, ond, yn y bôn, mae’n credu y bydd rhaid iddo bwyllo cyn rhoi unrhyw fesurau ar waith.

“Wel, beth ydw i'n gallu ei wneud? Does dim llawer galla' i ei wneud.Dwi'n gallu trio a marchnata i'r DU yn fwy, gan fy mod i'n meddwl bydd pobl yn stopio mynd i Ewrop … rhaid aros i weld.”

9.12 Mae un arall yn awgrymu ei bod yn rhy gynnar rhoi unrhyw fesurau Brexit ar waith. Fodd bynnag, mae’n ansicr ynglŷn ag a fydd trafod mesurau Brexit yn y swyddfa ganolog.

“Nid ar yr adeg hon; mae'n rhy gynnar o bosib. Mae'n bosib cawn ni ganllawiau gan y swyddfa ganolog eleni, ond dwi ddim yn gwybod.”

9.13 Mae un rhanddeiliad yn cyfaddef nad yw'n rhoi unrhyw beth ar waith gan ei fod yn credu na fydd Brexit yn cael effaith. Hefyd, mae'n credu bydd mwyafrif ei fusnesau (sy'n ficrobusnesau) yn yr un sefyllfa. Fodd bynnag, mae'n teimlo y gallai'r cwmnïau mwy o fewn y grŵp sydd â chyfleoedd busnes fod wedi rhoi rhywbeth ar waith.

“Microfusnesau yw mwyafrif ein busnesau, a fyddai dim o'r rhain wedi rhoi rhywbeth ar waith. Mae'n bosib bydd yr aelodau mwy sydd â chyfleoedd busnes y tu hwnt i'r DU wedi rhoi rhywbeth ar waith ar gyfer hynny, ond dwi ddim yn gwbl sicr.”

Brexit a'i effaith ar staff

9.14 Mae'n debyg mai dim ond un o'r rhanddeiliaid sy'n pryderu ynglŷn ag effaith bosib Brexit ar staff. Mae'n credu y gallai gael effaith negyddol gan y bydd yn fwyfwy anodd recriwtio staff. Hefyd, mae'n credu y gallai unrhyw aelodau Ewropeaidd o'r staff symud i rywle arall.

“Mae llawer o bryder ynglŷn â hynny. Mae'n fwyfwy anodd recriwtio staff.Rydyn ni'n gweld bod gan rai o'r gweithwyr o Ewrop lefydd eraill gallen nhw weithio – does dim rhaid iddyn nhw weithio yn y DU.Mae'n bosib byddwch chi'n colli'ch staff gorau.”

9.15 Fodd bynnag, nid yw eraill yn pryderu yr un faint. Maent yn credu na fydd unrhyw effaith gan fod busnesau dim ond yn cyflogi gweithwyr sy'n byw yn lleol. Mae hyn yn gyson â'r canfyddiadau meintiol.

“Nid i mi gan nad yw i'n cyflogi neb.Yn ein hardal ni, mae mwyafrif ein staff yn byw'n lleol.”

Dwi ddim yn meddwl byddai'n effeithio ar staff y rheiny sy'n cynnig gweithgareddau. … Mae mwyafrif y gweithwyr, os nid pob gweithiwr, dwi'n eu gweld yn y sefydliad yn hanu o Brydain neu'n ddinasyddion Prydeinig.”

Hyder ar gyfer yr Haf

Rhywfaint o rybudd ynghylch Brexit, ond mae'n argoeli tywydd da

9.16 Dim ond un rhanddeiliad nad yw'n teimlo'r un mor hyderus ag yr oedd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae ei hyder wedi dirywio yn sgil ansicrwydd Brexit yn bennaf.

> *"Pe baech chi wedi gofyn i mi bedwar mis yn ôl, roeddwn i'n gadarnhaol iawn, ond dwi'n llai cadarnhaol nawr. Yn bennaf oherwydd Brexit. Dydyn ni ddim yn gwybod o hyd ac mae cymaint o ansicrwydd."*

9.17 Mae un yn teimlo'n ofalus wrth nesáu at yr haf, yn bennaf yn sgil Brexit. Fodd bynnag, mae'n ychwanegu bod y tywydd hefyd yn ffactor arall sy'n dylanwadu'n fawr ar berfformiad dros yr haf.

> *"Byddwn i'n dweud fy mod i'n iawn. Dwi ddim yn rhy hyderus ac yn arbennig o ddiobaith.Brexit yw hi yn bennaf, ac mae'r tywydd hefyd yn cael cymaint o effaith ar dwristiaeth.Os cawn ni dywydd fel y llynedd, bydda i'n gwerthu'r cyfan, ond nid os bydd hi'n glawio."*

9.18 Mae eraill sy'n dibynnu ar y tywydd hefyd yn obeithiol y bydd tywydd tebyg i'r llynedd yr haf hwn.

> *"Mae'r tywydd yn dylanwadu'n fawr ar ba mor dda byddwn ni'n ei wneud. Rydyn ni wedi cael Pasg da, ac rydyn ni'n gwneud yn well na'r adeg hon y llynedd. Rydyn ni wedi gwneud cynnydd o 12% hyd yn hyn."*

> *"Dwi'n optimistaidd iawn ar un llaw, ond y realiti yw bod y sector yn fywiog a dwi'n meddwl bydd yn parhau i wella gydol y flwyddyn. Roedd y llynedd yn wych ac roedd y tywydd yr un mor dda, sy'n gwneud gwahaniaeth mawr.Mae'n gwbl bosibl bydd hi mor dda â'r llynedd, os nid yn well."*

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Mehefin 2019

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

- Llety â gwasanaeth ❑
- Llety hunan arlwyo ❑
- Maes carafannau / pebyll ❑
- Hostel ❑
- Atyniad ❑
- Cynal gweithgaredd ❑
- Bwyty / tafarn / caffi ❑

Q1 A yw eich busnes wedi'i sefydlu am fwy na 12 mis?

- Do ❑ Go to Q2
- Naddo ❑ Go to Q6

Q2 O gymharu â'r hanner tymor mis Mai/Mehefin y llynedd, faint o ymwelwyr yr ydych wedi'u cael y hanner tymor yma?

- Yn fwy na'r llynedd ❑
- Tua’r un peth ag y llynedd ❑
- Yn llai na'r llynedd ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q3 Pam fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o ymwelwyr? *(Paid a annog, ticiwch bob un perthnasol)*

- Tywydd gwell ❑
- Marchnata eich hun ❑
- Busnes dychwel ❑
- Adferiad economaidd ❑
- Mwy o archebion trwy asiant ar-lein (e.e. booking.com) ❑
- Wedi arwyddo fyny i asiantaeth newydd (hunan arlwyo) ❑
- Argymhellion ❑
- Cynnydd mewn twristiaeth ❑
- Mwy o le / ystafelloedd ❑
- Digwyddiadau yn yr ardal ❑
- Ystafelloedd neu gyfleusterau gwell ❑
- Mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU ❑
- Mwy o ymwelwyr tramor ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Arall ❑

Nodwch reswm / resymau eraill _____

Q4 Pam fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o ymwelwyr? *(Paid a annog, ticiwch bob un perthnasol)*

- Pasg hwyr ❑
- Tywydd ❑
- Ddim wedi hyrwyddo'r busnes / busnes dirwyn i lawr ❑
- Problemau annisgwyl ❑
- Ansicrwydd Brexit ❑
- Cystadleuaeth pris isel ❑
- Twristiaeth wedi gostwng yn yr ardal ❑
- Llai o ymwelwyr tramor ❑
- Llai o bobl Prydain yn mynd ar wyliau yn y DU ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Arall ❑

Nodwch reswm / resymau eraill _____

Q5 Hyd yn hyn eleni, sut mae eich proffidioldeb ar y cyfan o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

- I fyny ar y llynedd ❑
- Tua'r un peth a llynedd ❑
- I lawr ar y llynedd ❑
- Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud ❑

Q6 Pa mor hyderus ydych chi am dymor yr haf?

- Hyderus iawn ❑
- Eithaf hyderus ❑
- Ddim yn hyderus iawn ❑
- Ddim yn hyderus o gwbl ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q7 *Cyfwelydd: cofnodi'r holl sylwadau defnyddiol ar berfformiad yr hanner tymor hwn, marchnadoedd neu hyder ar gyfer yr haf.*

_____

Q8 Pa effaith, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y bydd Brexit yn ei gael yn 2019 ar eich lefel o:

	Cadarnhaol iawn	Ychydig yn gadarnhaol	Dim effaith	Ychydig yn negyddol	Negyddol iawn	Ddim yn gwybod neu ddim yn berthnasol
Ymwelwyr o'r DU	❑	❑	❑	❑	❑	❑
Ymwelwyr Ewropeaidd	❑	❑	❑	❑	❑	❑
Ymwelwyr o'r tu allan i Ewrop	❑	❑	❑	❑	❑	❑

Q9 (OS OES EFFAITH AR UNRHYW FATH O YMWELYDD)

A yw eich busnes yn gwneud unrhyw beth yn rhagweithiol i baratoi ar gyfer yr effaith (cadarnhaol neu negyddol)?

- Ydi ❑
- Nac ydi ❑

Q10 (OS YDI I'R UCHOD)

Beth ydych chi'n ei wneud i baratoi? (*Paid a annog*)

Cynyddu hysbysebu i farchnad y DU ..... ❑
Targedu marchnadoedd y tu allan i Ewrop ..... ❑
Lleihau costau gweithredu ..... ❑
Chwilio am gyflenwyr newydd ..... ❑
Gofyn am gyngor gan Lywodraeth Cymru ..... ❑
Gofyn am gyngor gan Lywodraeth y DU ..... ❑
Adolygu prisiau i aros yn gystadleuol ..... ❑
Arall ..... ❑
Nodwch reswm / resymau eraill _____

Q11 *Cyfwelydd: cofnodi'r holl sylwadau defnyddiol ar effaith Brexit ar farchnadoedd penodol a beth mae busnesau yn ei wneud i baratoi.*

_____

Q12 A yw'ch busnes yn cyflogi unrhyw un heblaw'r perchnogion?

Ydi ..... ❑
Nac ydi ..... ❑

Q13 (OS OES UNRHYW UN A GYFLOGIR)

Faint o bobl mae eich busnes yn eu cyflogi ar y safle hwn, heb gynnwys y perchnogion?

Hyd at 5 ..... ❑
Rhwng 6 a 10 ..... ❑
Rhwng 11 a 50 ..... ❑
Mwy na 50 ..... ❑

Q14 (OS OES UNRHYW UN A GYFLOGIR)

A sut, os o gwbl, mae Brexit wedi effeithio ar staffio eich busnes? (*Paid a annog*)

Effaith gadarnhaol ..... ❑
Dim effaith ..... ❑
Effaith negyddol - anawsterau wrth recriwtio gweithwyr newydd ..... ❑
Effaith negyddol - anawsterau o ran cadw gweithwyr presennol ..... ❑
Effaith negyddol - rheswm arall ..... ❑
Ddim yn gwybod ..... ❑

Q15 *Cyfwelydd: cofnodi'r holl sylwadau defnyddiol ar yr effaith ar staffio*

_____

Q16 A yw eich busnes wedi'u graddio neu wedi'u hachredu gan Croeso Cymru / Visit Wales?

Do ..... ❑
Naddo ..... ❑